CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**6 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Lleoliad Canolfan Llesiant 2**
Pwrpas yr adroddiad:	**Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ynghylch lleoliad ail Ganolfan Llesiant y Cyngor** **Er Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gydol Oes a Llesiant**

Cefndir
Mae creu Hybiau Llesiant a wasanaethir gan Ganolfan Llesiant yn elfen allweddol o Strategaeth Gydol Oed a Llesiant y Cyngor.

Caiff Canolfan Llesiant gyntaf y Cyngor ei chreu trwy ailddatblygu Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan er mwyn gwasanaethu Hyb Llesiant Canol y sir.

Bydd y Ganolfan Llesiant yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ystyried ac sy'n gwella agweddau corfforol, meddyliol a chymdeithasol ar les unigolyn. Bydd y gwasanaethau Gydol oed hyn yn cynnwys cyngor cyflogaeth a sgiliau, cymorth tai a chaledi, gwasanaethau i bobl ifanc, cymorth i ofalwyr, cymorth cynnar ar gyfer Iechyd Meddwl. Yn ogystal, bydd y Ganolfan Llesiant yn cynnig mwy o fynediad i Wybodaeth, cyngor a chymorth i breswylwyr am holl wasanaethau'r cyngor.

Trwy ddarparu'r gwasanaethau hyn i breswylwyr yn eu cymunedau, ein nod yw sicrhau eu bod yn cael cymorth mor gynnar ag y bo modd, a fydd yn atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio i wasanaethau statudol.

Cychwynnwyd ar y gwaith adeiladu ym mis Awst 2022 a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2023, gyda'r nod o agor y Ganolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Mawrth/Ebrill 2023.

Daw y cyllid er mwyn creu'r Ganolfan Llesiant, Llanbedr Pont Steffan, trwy agwedd Hwbiau Cymunedol Llywodraeth Cymru ar ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a rhaglen cyfalaf y cyngor.

<u>Lleoliad yr ail Ganolfan Llesiant</u>
Bwriedir creu 3 Hwb Llesiant yn y sir, y caiff pob un ohonynt eu gwasanaethu gan Ganolfan Llesiant. Gyda Chanol y sir yn cynnal y Ganolfan Llesiant gyntaf, mae gofyn gwneud penderfyniad am yr ail Ganolfan Llesiant, ac a ddylid ei datblygu yng Ngogledd neu yn Ne y Sir.

Er mwyn cyfrannu at y penderfyniad, ceisiwyd data gan dîm polisi a pherfformiad y cyngor er mwyn creu dadansoddiad anghenion ar gyfer pob ardal ddaearyddol, gan ganolbwyntio ar y setiau data canlynol:

1. Poblogaeth
2. Amrywiaeth
3. Amddifadedd
4. Tai
5. Hygyrchedd

Mae'r data yn canolbwyntio ar y prif ardaloedd poblogaeth ar gyfer pob ardal, sef:

Gogledd: Aberystwyth
De: Aberteifi; Llandysul a Cheinewydd

Diben y data a ddarparwyd yw galluogi i benderfyniad gael ei wneud am y lleoliadau a fydd yn cynnig y cyfle gorau i fanteisio i'r eithaf ar effaith Canolfan Llesiant yng Ngogledd a De y sir.

Darparir copi o ddadansoddiad Anghenion Gogledd a De Ceredigion fel **Atodiad A**.

Mae'r data a ddarparwyd yn **Atodiad A** wedi cyfrannu at y casgliad canlynol:

Mai Aberystwyth ac Aberteifi yw'r lleoliadau a fydd yn cynnig y cyfle gorau i fanteisio i'r eithaf ar effaith Canolfan Llesiant yng Ngogledd a De y sir.

Cymharu data LSOAs Aberystwyth ac Aberteifi
Darparwyd tabl fel **Atodiad B** sy'n cymharu prif ddata lefel gwasanaeth y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant.

Trosolwg o'r Data Demograffig
Fel y disgwyl, gwelir rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn y data demograffig ar gyfer LSOAs Aberystwyth ac Aberteifi.
Ceir poblogaeth lawer yn fwy yn Aberystwyth, er gwaethaf gostyngiad o 14% er cyfrifiad 2011 a'r ffaith bod Aberteifi wedi profi cynnydd o 1.6% yn ei phoblogaeth yn ystod y cyfnod hwn.
Mae Aberystwyth yn cynnwys poblogaeth llawer iau nag Aberteifi, gan arwain at wahaniaeth o 13 blynedd rhwng yr oedrannau cyfartalog (32 oed o'i gymharu â 45 oed). Mae % uwch o breswylwyr Aberteifi, 25% ohonynt, yn 65+ oed na'r ganran a welir yn Aberystwyth, sef 14%.
Mae Aberteifi yn cynnwys % lawer yn uwch o bobl sydd ag anabledd, 28%, o'i chymharu ag 16.7%, ac mae Aberystwyth yn cynnwys dwbl y % o ran pobl o gefndir BAME (6.2% o'i chymharu â 3.1%).

Gwelir lefelau amddifadedd uwch yn Aberystwyth ac Aberteifi nag y gwelir yng ngweddill y sir. Fodd bynnag, mae'r tair set data, sef:

1. Safle ardaloedd difreintiedig
2. % yr aelwydydd y mae eu hincwm yn is na 60% o'r incwm canolrifol ym Mhrydain
3. Incwm Cyfartalog Aelwydydd

yn dangos yn glir bod Aberteifi yn cynnwys lefelau amddifadedd uwch o'i chymharu ag Aberystwyth.

Ni cheir fawr iawn o wahaniaeth rhwng cyfansoddiad y ddeiliadaeth tai ym mhob ardal.

Trosolwg o Ddata Lefel Gwasanaeth TAWP

Er nad yw data TAWP wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De ar hyn o bryd, mae'n cynnig trosolwg eang o'r Gogledd a'r De pan gaiff ei ystyried law yn llaw â'r data demograffig.

Er bod niferoedd y cyfranogwyr yn uwch ar gyfer Aberystwyth, fel y disgwyl, oherwydd y boblogaeth uwch, efallai nad yw'r gwahaniaeth mor fawr â'r disgwyl. Ceir gwasanaethau hefyd lle y mae'r cyfranogiad neu'r angen yn uwch yn Aberteifi, sy'n awgrymu cydberthynas â'r data demograffig.

Crynodeb: Trwy gymharu'r data a ddarparwyd yn y ddogfen tabl cymharu, mae'n awgrymu bod **Aberteifi** yn cynnwys y lefelau angen uchaf a bydd yn cynnig y cyfle gorau i fanteisio i'r eithaf ar effaith yr ail Ganolfan Llesiant yn y sir.

Mae'r rhesymeg dros yr argymhelliad hwn fel a ganlyn:

1. Mae Aberteifi yn cynnwys y lefel amddifadedd uwch
2. Mae Aberteifi yn cynnwys poblogaeth y mae ei hoedran cyfartalog yn hŷn, a allai olygu y bydd gofyn i breswylwyr gael cymorth / ymyrraeth yn gynharach na phreswylwyr yn Aberystwyth
3. Mae gan % uwch o'r boblogaeth yn Aberteifi anabledd

Lleoliadau posibl Canolfan Llesiant yn Aberystwyth ac Aberteifi

Aberystwyth

Cyn pandemig Covid-19, Canolfan Hamdden Plascrug oedd y lleoliad arfaethedig ar gyfer Canolfan Llesiant gyntaf y cyngor. Mae'n gyfleuster sy'n mynd yn hen ac sy'n cynnwys pwll nofio a adeiladwyd 50 mlynedd yn ôl, a chanolfan hamdden a adeiladwyd 30 mlynedd yn ôl, y mae gofyn gwneud cryn fuddsoddiad cyfalaf ynddi.

Bu rhai datblygiadau arwyddocaol yn ddiweddar, fodd bynnag, y dylid eu hystyried cyn cadarnhau lleoliad y Ganolfan Llesiant yn Aberystwyth:

1. Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu Ffyrdd newydd o Weithio, a'r defnydd a wneir o Ganolfan Rheidol ac Adeilad Llywodraeth Cymru yn Llanbadarn Fawr yn y dyfodol
2. Y ffaith bod gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gael lleoliad i ddarparu gwasanaethau Ffisiotherapi Cymunedol
3. Cytundeb i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth i baratoi adroddiad sy'n nodi *"Y seilwaith gofynnol o ran cyfleuster yng Ngogledd Ceredigion i gyflawni uchelgais strategol y ddau sefydliad er mwyn gwella iechyd a lles eu dinasyddion trwy fod yn weithredol yn gorfforol, nawr ac yn y dyfodol*."

Bydd adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb yn barod ym mis Mawrth/Ebrill 2023 a dylid ystyried ei gynnwys wrth bennu lleoliad posibl Canolfan Llesiant yn Aberystwyth.

Aberteifi
Os byddwn yn canlyn dull gweithredu tebyg i'r un a gaiff ei gymryd yng Nghanol y sir wrth ddatblygu cyfleuster hamdden sy'n bodoli eisoes i fod yn Ganolfan Llesiant, y lleoliad fyddai Canolfan Hamdden Teifi. I gyflawni hyn, byddai gofyn:

- Addasu / adeiladu estyniad i Ganolfan Hamdden Teifi er mwyn cynnig lle i'r Ganolfan Llesiant.
- Ystyried sut i roi sylw i sialensiau/problemau parcio presennol
- Mae'r tir y lleolir Canolfan Hamdden Teifi arno yn destun Gorchymyn gan y Comisiwn Elusennau, a byddai gofyn ymchwilio i hyn ymhellach.

Mae adeiladau arwyddocaol eraill y mae'r cyngor yn berchen arnynt yn y dref yn cynnwys y Llyfrgell a Neuadd y Farchnad, er nad oes un o'r rhain yn cynnig y capasiti i gynnwys amrediad y gwasanaethau y bwriedir eu darparu yn y Ganolfan Llesiant.

Yn ogystal, ceir cyfleusterau yn y dref nad yw'r cyngor yn berchen arnynt, ac y dylid eu hystyried.

<u>Y cynnig</u>
Cynigir y dylid gwneud gwaith pellach i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ddatblygu'r ail Ganolfan Llesiant yn Aberteifi.

Bydd yr ymarfer hwn yn cynnwys cwmpasu holl wasanaethau cyhoeddus y cyngor y byddai modd eu darparu o'r Ganolfan Llesiant ac unrhyw gyfleoedd i adleoli gwasanaethau presennol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r cyngor. Nodir amlinelliad o'r cyfleuster posibl a'r gost amcangyfrifedig hefyd.

Bydd derbyn yr adroddiad ddichonoldeb ar y cyd gyda Phrifysgol Aberystwyth yn cael ei ddefnyddio i lywio trafodaethau ar leoliad posib y 3ydd Ganolfan Llesiant yn Aberystwyth yn y dyfodol.

	A gwblhawyd Asesiad o'r Effaith Integredig? Os na, nodwch pam ddim:	l'w gwblhau yn ystod y broses ddatblygu
	Crynodeb:	
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Hirdymor:**	**Cadarnhaol** – Sicrhau bod cyfleusterau'r cyngor yn gweithredu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon a darparu gwasanaethau sy'n gwella iechyd a lles preswylwyr
	Cydweithio:	**Cadarnhaol –** Gweithio gydag eraill o'r sector statudol a'r trydydd sector
	Cynnwys:	**Cadarnhaol –** Ymgysylltu gyda gwasanaethau mewnol ac allanol a'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod y

	gwasanaethau a ddarparir yn cynrychioli'r hyn sy'n ofynnol
Atal:	**Cadarnhaol –** Datblygu gwasanaeth atal ac ymyrraeth gynnar fel rhan o'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant
Integreiddio:	**Cadarnhaol –** Mabwysiadu ffordd o weithio holistig ac integredig

Argymhellion:	**Argymhelliad 1:** Ar ôl ystyried y data sydd ar gael; argymhellir bod Aberteifi yn cael ei chadarnhau fel lleoliad ail Canolfan Llesiant y sir. **Argymhelliad 2:** Bod papur am y dewisiadau yn cael ei baratoi am y lleoliad a ffafrir er mwyn datblygu Canolfan Llesiant yn Aberteifi, gan gynnwys amlinelliad o'r cyfleuster posibl a'r gost amcangyfrifedig.
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn symud ymlaen i ddatblygu ail Ganolfan Llesiant y sir
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gydol Oed a Llesiant: *Sicrhau mynediad teg i wasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu sy'n rhagorol ac sy'n diogelu ac yn cynorthwyo iechyd a lles yr holl ddinasyddion.*
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:	I'w nodi yn ystod y broses ddatblygu
Goblygiadau Cyfreithiol:	I'w nodi yn ystod y broses ddatblygu
Goblygiadau staffio:	I'w nodi yn ystod y broses ddatblygu
Goblygiadau i eiddo / asedau:	I'w nodi yn ystod y broses ddatblygu
Risg(iau):	Methu cyflawni yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol
Pwerau Statudol:	Amherthnasol
Papurau Cefndir:	Amherthnasol

Atodiadau:	**Atodiad A:** Dadansoddiad Anghenion Gogledd a De Ceredigion **Atodiad B:** Tabl Cymharu Data ar gyfer Aberystwyth ac Aberteifi
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elen James – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
Swyddog Adrodd:	Carwyn Young – Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaeth Canolfannau Llesiant
Dyddiad:	23.11.2022

Atodiad A

Dadansoddiad Anghenion Gogledd a De Ceredigion

Dadansoddiad Anghenion Gogledd Ceredigion

Mae'r dref fwyaf yng Ngheredigion yng ngogledd Ceredigion – lleolir Aberystwyth ym Mae Ceredigion ac mae'n cynnwys poblogaeth o oddeutu 18,000. Mae ardal canol y dref yn cynnwys chwech Ardal Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs) gyda phoblogaeth gyfunol o 8,860

- Bronglais
- Canol
- Penparcau 1
- Penparcau 2
- Rheidol 1
- Rheidol 2

Mae'r dref yn gartref i Brifysgol Aberystwyth hefyd, lle y mae tua 8,000 o fyfyrwyr yn byw yn ystod y tymor, ac sy'n cael ei hystyried ymhlith y goreuon ar draws y DU yn gyson o ram bodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr. Mae'r dref yn denu nifer o ymwelwyr a thwristiaid o'r sir a thu hwnt o ganlyniad i amrediad y gweithgareddau a'r atyniadau sydd yma, megis y Promenâd, Craig Glais, Rheilffordd Cwm Rheidol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Poblogaeth

Fel sawl rhan o Geredigion, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn Aberystwyth wedi gweld gostyngiad ym maint ei phoblogaeth (14.8%) ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, er ei bod llawer yn fwy o faint nag unrhyw dref arall yn y sir o hyd (Poblogaeth o oddeutu 18,000).
Ardal 'Penparcau 2', sy'n cynnwys rhan de-ddwyreiniol y dref, yw'r unig ardal lle y gwelwyd maint y boblogaeth yn tyfu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, gan godi rhyw ychydig, 0.3%. I'r gwrthwyneb, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn ardal Bronglais i'r gogledd.

Amrywiaeth

Mae Aberystwyth yn cynnwys llawer mwy o amrywiaeth na'r ardaloedd mwy gwledig yn y sir. Er enghraifft, mae'r boblogaeth BAME, sef 6.2%, yn uwch nag y mae ar gyfartaledd ar draws y chwe ardal, gan amrywio o 3.9% ym Mhenparcau 2 i 7.7% yn Rheidol 1, sy'n cynnwys glan y môr a llety sylweddol i fyfyrwyr. Yn ogystal, mae rhan fwyaf y dref yn cynnwys cyfran uwch o breswylwyr a anwyd y tu allan i'r DU, y mae rhai ohonynt yn fyfyrwyr rhyngwladol yn y Brifysgol.

Oedran cyfartalog preswylwyr yn y 6 LSOA yw 32 oed, ac mae hwn lawer yn is na'r oedran cyfartalog a welir ar draws y Sir gyfan. Mae hyn yn arwyddocaol gan mai pobl iau oedd un o'r grwpiau yr effeithiwyd arnynt yn y ffordd fwyaf anghymesur gan bandemig COVID-19 oherwydd yr effaith ar iechyd meddwl ac ar incymau.

Mae ardal Rheidol 1, sy'n cynnwys glan y môr, yn cynnwys yr oedran cyfartalog isaf, sef 24.1, ac mae hyn o ganlyniad i'r llety sylweddol i fyfyrwyr yn yr ardal. Nid oedd nifer o fyfyrwyr yn bresennol yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol oherwydd y symudwyd yr addysgu i amgylchedd rhith, ond mae'n hysbys bod iechyd meddwl yn bryder penodol ymhlith pobl iau yn dilyn y pandemig.

Cydnabyddir yn eang bod rhai grwpiau, fel y rhai o gefndir ethnig lleiafrifol, wedi cael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur gan bandemig COVID-19 a bydd gofyn iddynt gael cymorth lles ychwanegol efallai yn ystod y cyfnod adfer.
Yn ogystal, ceir cyfran lawer uwch o bobl sydd ag anabledd yn ardaloedd Penparcau, sef 22.8% ym Mhenparcau 1 a 22.1% ym Mhenparcau 2. Er bod hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Sir gyfan yn unig (20%), mae'n llawer uwch na'r ardaloedd sy'n cynnwys mwy o fyfyrwyr yng nghanol y dref. Yn yr achos hwn, caiff anabledd ei ddiffinio fel cyflwr hirdymor cyfyngus lle y caiff gweithgareddau dydd-i-ddydd eu cyfyngu 'llawer' neu 'ychydig'.

Amddifadedd
Ceir pocedi sylweddol o amddifadedd yn y dref, yn enwedig yn ardaloedd Penparcau, sef y 3ydd a'r 4ydd ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y sir ar ôl ardaloedd Teifi a Rhyd-y-Fuwch yn Aberteifi.
Mae Penparcau 1, sef gorllewin Penparcau, o fewn yr 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn genedlaethol, ac mae'n arbennig o isel yn y parth cyflogaeth, sy'n asesu nifer y bobl sy'n cael budd-daliadau allweddol i'r rhai heb waith.
Fodd bynnag, nid ym Mhenparcau yn unig y gwelir amddifadedd. Mae ardal Rheidol 1 o fewn 50% yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, ond eto, o fewn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer diogelwch cymunedol a thai. Rheidol 1 yw'r ardal sy'n cynnwys glan y môr a rhan orllewinol canol y dref.

Tai
Mae'r parth tai yn canolbwyntio ar orlenwi mewn eiddo a'r tebygolrwydd o weld tai o ansawdd gwael. Yn yr un modd, mae diogelwch cymunedol a thai yn broblemau ar gyfer Canol Aberystwyth, lle y mae o fewn y 10% mwyaf difreintiedig ar lefel genedlaethol hefyd ar gyfer y parthau hyn.
Ac eithrio Bronglais, mae incymau cyfartalog aelwydydd yn is yn Aberystwyth nag y maent ar draws y Sir gyfan. Mae'r incymau arbennig o isel yn Rheidol 1 a Chanol Aberystwyth yn debygol o fod yn gysylltiedig â phoblogaeth uchel y myfyrwyr yn yr ardaloedd hynny, na fydd nifer ohonynt mewn cyflogaeth amser llawn nac yn economaidd weithgar. Fodd bynnag, gwelir cyfran uwch-na-chyfartalog o aelwydydd y mae eu hincwm yn is na 60% o'r incwm canolrifol ym Mhrydain, h.y., yn byw mewn tlodi ym Mhenparcau 1, Penparcau 2 a Rheidol 2.

Hygyrchedd
Mae'r hygyrchedd i Aberystwyth yn dda, gan bod y dref ar brif ffordd yr A487 sy'n teithio ar hyd yr arfordir, i'r de tuag at Lanrhystud ac Aberaeron ac i'r Gogledd i Bow Street a Thal-y-bont. Y tu allan i'r dref, mae'r A487yn cyfarfod â'r A44, gan ddwyn traffig o'r dwyrain ar draws y ffin â Phowys. Yn ogystal, gwasanaethir Aberystwyth gan y ddolen rheilffordd sy'n terfynu yng nghanol y dref ac sy'n cysylltu gyda Bow Street a Borth, cyn rhannu wrth Gyffordd Dyfi gan deithio i gyfeiriad y gogledd neu'r dwyrain dros y ffin i Gwynedd neu Bowys.

Dadansoddiad Anghenion De Ceredigion
Gwasanaethir de Ceredigion gan dair tref, sef Aberteifi, Llandysul a Cheinewydd.

Poblogaeth
Mae Aberteifi a'i dalgylch uniongyrchol, gyda phoblogaeth o ychydig dros 2,400, yn llawer mwy o faint na Llandysul (1,409) a Cheinewydd (980). Mae Aberteifi yn cynnwys ardaloedd Teifi a Rhyd-y-Fuwch, sy'n cynnwys rhan fwyaf o ganol y dref, ond mae maint y boblogaeth yn codi'n sylweddol i 4,250 os caiff ardal Mwldan i'r gorllewin ei chynnwys.
Mae poblogaeth LSOAs Aberteifi yn tyfu yn araf hefyd, gan gynyddu 1.6% ers y cyfrifiad diwethaf, a hon yw'r unig ardal i wneud hynny ymhlith y tri lleoliad posibl a ystyrir. Mae poblogaeth Llandysul wedi gostwng 1.9% yn ystod yr un cyfnod, ac mae poblogaeth Ceinewydd wedi gostwng 9.4%.

Amrywiaeth
Mae gan y dair ardal gyfran uwch-na-chyfartalog o bobl sydd ag anabledd na'r hyn a welir ar draws y sir gyfan (10.0%). Yn yr achos hwn, caiff anabledd ei ddiffinio fel cyflwr hirdymor cyfyngus lle y cyfyngir ar weithgareddau dydd-i-ddydd 'gryn dipyn'.
Mae Aberteifi yn cynnwys cyfran uwch o bobl sydd ag anabledd, sef 15.8%, o'i gymharu ag 13.4% yn Llandysul a 10.9% yng Ngheinewydd.
At hynny, mae'n cynnwys cyfran mwy o faint o'i phoblogaeth nad ydynt wedi cael eu geni yng Nghymru na'r DU, sef 4.8%, o'i gymharu â 3.0% yr un ar gyfer Llandysul a Cheinewydd. Yn yr un modd, mae'n cynnwys poblogaeth BAME (Duon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) mwy o faint, sef 3.8%, o'i gymharu â 2.2% yng Ngheinewydd a 0.8% yn Llandysul.

Cydnabyddir yn eang bod rhai grwpiau, megis y rhai o gefndir ethnig lleiafrifol, wedi cael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur gan bandemig COVID-19 a bydd gofyn iddynt gael cymorth lles ychwanegol yn ystod y cyfnod adfer efallai.

Amddifadedd
Ceir cymysgedd ehangach o oedrannau yn Aberteifi, yn hen ac yn ifanc, a phoblogaeth oedran gweithio mwy o faint y gallai fod wedi cael ei heffeithio gan oblygiadau ariannol COVID-19 a'r cyfnodau clo cenedlaethol, megis llai o incwm neu golli gwaith neu'r pryderon iechyd meddwl sy'n deillio o hyn. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod ardal Rhyd-y-Fuwch yn Aberteifi yn cynnwys yr incwm aelwydydd isaf yn y Sir, sef £21,788[1], o'i chymharu â Cheinewydd, sy'n llawer uwch, sef £30,514.

Rydym yn gwybod hefyd mai ardaloedd Teifi a Rhyd-y-Fuwch yw'r ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Ngheredigion a'u bod yn ymddangos yn 10% yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn genedlaethol. Mae'r ddwy ardal hon yn arbennig o ddifreintiedig ym mharthau incwm, cyflogaeth a diogelwch cymunedol ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.

Er bod pocedi o amddifadedd yn Llandysul a Cheinewydd ym mharthau Mynediad i Wasanaethau a Thai, yn gyffredinol, maent yn llawer llai difreintiedig yn ôl y Fynegai.

Tai

Ceir cymysgedd ehangach o ddeiliadaeth tai yn Aberteifi – dim ond 40% o aelwydydd sy'n berchen ar eu heiddo neu sydd â morgais ar ei gyfer, mae bron i chwarter (24%) yn byw mewn llety rhent cymdeithasol, ac mae 24% pellach yn rhentu eiddo yn breifat. Mae Llandysul a Cheinewydd yn cynnwys cyfran uwch o aelwydydd sy'n berchen ar eu heiddo eu hunain (47% a 56%) a chyfran is mewn llety rhent cymdeithasol (20% ac 8%).

Hygyrchedd

Mae hygyrchedd i Aberteifi yn dda i'r rhai sy'n teithio mewn cerbyd. Gwasanaethir y dref gan brif ffordd yr A487 sy'n teithio i'r gogledd i Ben-parc ac yna i Flaen-porth, ac i'r de ar draws y ffin i Llantood yn Sir Benfro. Mae'r A484 yn cludo traffig i'r gorllewin tuag at Llechryd gan ddilyn ffin y sir yn y de.

Atodiad B

Tabl Cymharu Data ar gyfer Aberystwyth ac Aberteifi

Data Demograffig

Pennawd Data	Ceredigion	Aberystwyth	Aberteifi
Poblogaeth	71,500 (46 LSOA, 34 Ward Etholiadol) Gostyngiad o -4.08% er 2011	8,860 (6 LSOA) Gostyngiad o 14.8% er 2011 8,040 o Fyfyrwyr	4,250 (3 LSOA) Cynnydd o 1.6% er 2011
	31,562 o Aelwydydd	4,124 o Aelwydydd	2,005 o Aelwydydd
Amrywiaeth	47 yw'r Oedran Cyfartalog 17% 0-17 oed 58% 18-64 oed 26% 65+ oed	32 yw'r Oedran Cyfartalog 15% 0-17 oed 71% 18-64 oed 14% 65+ oed	45 yw'r Oedran Cyfartalog 20% 0-17 oed 54% 18-64 oed 25% 65+ oed
	Mae Anabledd gan 21% o Bobl	Mae Anabledd gan 16% o Bobl	Mae Anabledd gan 28% o Bobl
	6.0% heb eu geni yn y DU	10.9% heb eu geni yn y DU	4.1% heb eu Geni yn y DU
	Maint y Boblogaeth BAME yw 3.3%	Maint y Boblogaeth BAME yw 6.2%	Maint y Boblogaeth BAME yw 3.1%
Amddifadedd	2 LSOA o fewn yr 20% mwyaf difreintiedig ar lefel genedlaethol	Penparcau 1 = 3ydd Penparcau 2 = 4ydd Ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion	Teifi = 1af Rhyd-y-Fuwch = 2il Ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion
	32.7% o aelwydydd yn cael llai na 60% o'r incwm canolrifol ym Mhrydain	38.2% o aelwydydd yn cael llai na 60% o'r incwm canolrifol ym Mhrydain	41.1% o aelwydydd yn cael llai na 60% o'r incwm canolrifol ym Mhrydain
	Incwm Aelwyd Cyfartalog Canolrifol: £31,162	Incwm Aelwyd Cyfartalog Canolrifol Isaf: £25,406 Rheidol 1	Incwm Aelwyd Cyfartalog Canolrifol Isaf: £21,788 Rhyd-y-Fuwch
Tai	59% yn Berchen ar eu cartref neu mae ganddynt forgais arno 9% Rhent Cymdeithasol 16% Rhent Preifat	35% yn Berchen ar eu cartref neu mae ganddynt forgais arno 18% Rhent Cymdeithasol 35% Rhent Preifat	51% yn Berchen ar eu cartref neu mae ganddynt forgais arno 10% Rhent Cymdeithasol 8% Rhent Preifat

<u>Nodiadau:</u>
Caiff anabledd ei ddiffinio fel cyflwr hirdymor cyfyngus sy'n cyfyngu ar weithgareddau dydd-i-ddydd gryn dipyn neu ychydig.
Nifer y Myfyrwyr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac yn seiliedig ar flwyddyn 2020/21
Mae incwm aelwydydd yn seiliedig ar yr incwm aelwyd canolrifol
Aelwydydd y mae eu hincwm yn llai na 60% o'r incwm canolrifol ym Mhrydain ac incwm aelwydydd cyfartalog canolrifol gan Paycheck CACI 2021
Efallai na fydd y canrannau yn rhoi cyfanswm o 100 o ganlyniad i dalgrynnu gan gyfrifiadur

Data Lefel Gwasanaeth TAWP

Maes TAWP	Pennawd Data	Ceredigion	Aberystwyth	Aberteifi
Porth Cymorth Cynnar	Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff	913 o atgyfeiriadau cleientiaid yn 2018/19 814 o Atgyfeiriadau Cleientiaid ers ailgychwyn oherwydd covid-19	318 o atgyfeiriadau Cleientiaid yn 2018/19 173 o Atgyfeiriadau Cleientiaid ers ailgychwyn oherwydd covid-19	331 o atgyfeiriadau Cleientiaid yn 2018/19 284 o Atgyfeiriadau Cleientiaid ers ailgychwyn oherwydd covid-19
	Nifer a % y Plant dan 4 oed mewn aelwydydd amddifadedd incwm yn 2016/17 *(Mae'r data am boblogaeth plant dan 4 oed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n cyfeirio at Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2016)*	610 o Blant	Bronglais: 0 / 0% Canol: 10 / 43% Penparcau 1: 20 / 30% Penparcau 2: 35 / 40% Rheidol 1: 5 / 21% Rheidol 2: 5 / 21% Cyfanswm: 75 o blant	Teifi: 50 / 67% Mwldan: 25 / 32% Rhyd-y-Fuwch: 15 / 31% Cyfanswm: 90 o blant
	Nifer y Plant a Phobl Ifanc a atgyfeiriwyd ac sy'n agored i Wasanaeth Cymorth ac Atal	422 (ar 04.10.2022)	177 (Gogledd y sir)	132 (De y sir)
	Dysgwyr Dysgu Bro	348 (Data 2021/22)	150 (Gogledd y sir)	111 (De y sir)
	Cymorth Cyflogaeth	1,043 o gyfranogwyr (Mai 2016 tan heddiw)	489 o gyfranogwyr (Mai 2016 tan heddiw)	279 o gyfranogwyr (Mai 2016 tan heddiw)
Porth Gofal	Nifer yr atgyfeiriadau a symudodd ymlaen i Borth Cynnal o gyswllt Porth Gofal/Tîm SIFT	Adroddwyd am 1,155 yn Ch1 Teifi 2022/23	Nid yw'r data wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De hyd yn hyn	Nid yw'r data wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De hyd yn hyn
	Nifer y bobl sy'n cael taliad uniongyrchol	Adroddwyd am 516 yn Ch1 Teifi 2022/23	Nid yw'r data wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De hyd yn hyn	Nid yw'r data wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De hyd yn hyn
Porth Cynnal	Nifer y bobl sy'n cael problemau camddefnyddio sylweddau ac sy'n cael cymorth yn y gymuned	62 o Atgyfeiriadau Newydd i'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau yn 2021/22	Gogledd (Ceinewydd ac i'r gogledd) – 38 o Atgyfeiriadau Newydd i'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau yn 2021/22	De (gan gynnwys Llandysul/Llanbedr Pont Steffan) – 24 o Atgyfeiriadau Newydd i'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau yn 2021/22
	Nifer y bobl sy'n cael anawsterau iechyd meddwl ac sy'n cael cymorth yn y gymuned	Adroddwyd am 377 yn Ch1 Teifi 2022/23	Nid yw'r data wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De hyd yn hyn	Nid yw'r data wedi cael ei rannu yn ôl y Gogledd, y Canol a'r De hyd yn hyn

Nodiadau: Sicrhawyd y data a ddefnyddiwyd trwy Ddangosfwrdd Teifi neu'n uniongyrchol gan y Gwasanaethau a nodwyd